

# *Astudiaeth ymchwiliol i effeithiolrwydd gwahanol strategaethau sillafu a chanfyddiadau plant o'u hunain fel sillafwyr llwyddiannus*

Angela Louise Smith

## CRYNODEB

Mae gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau llythrennedd mewn ysgolion yn faes ymchwil, yn enwedig yng nghyd-destun ymarfer cynhwysol a darpariaeth gyffredinol. Roedd yr astudiaeth achos hon mewn ysgol gynradd wledig yng Nghymru yn archwilio sut yr addysgwyd strategaethau sillafu i ddisgyblion Blwyddyn 4, y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt, gan ddefnyddio dulliau addysgu seiliedig ar ymchwil dros gyfnod o wyth wythnos, ac a gafodd hyn effaith ar eu hunan-ganfyddiad fel sillafwyr llwyddiannus. Gan ddefnyddio dulliau cymysg, casglwyd data drwy asesiadau crynodol, holiaduron disgyblion a chyfweiliadau grŵp ffocws. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod ymyriadau sillafu pwrpasol sy'n defnyddio technegau addysgu sefydledig sy'n ymgorffori dulliau addysgegol amlsynnwyr wedi gwella canfyddiadau unigolion o'u gallu sillafu a'u perfformiad sillafu. Nodwyd ystyriaethau ar sut i fynd ati i addysgu sillafu mewn lleoliadau cynradd fel testun gwaith ymchwil yn y dyfodol, gyda chanfyddiadau'r astudiaeth hon yn cael eu rhannu â swyddogion statudol a CADY o bob rhan o'r awdurdod lleol.

## *Cyflwyniad*

Mae gan oddeutu 20% o blant Cymru Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (SNAP Cymru, 2022), gydag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi'u nodi fel y maes sydd â'r angen mwyaf mewn ysgolion

<https://doi.org/10.16922/ffocws7>

cynradd dros y tair blynedd diwethaf (Llywodraeth Cymru, 2024). Ar ôl ei nodi, caiff yr angen ei fonitro a'i gofnodi drwy ymateb graddedig yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau y gellir diwallu anghenion ar unrhyw lefel, gyda'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DdDY) yn dechrau ar 'y lefel isaf sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc...[gan] wneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael iddynt cyn galw, lle bo angen, ar arbenigwr' (LIC, 2022, t. 23). Yn y cyd-destun hwn, mae ysgolion yn cynnig ymyrraeth i blant y nodwyd bod angen hyfforddiant ychwanegol arnynt i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Fel CADY, roeddwn yn ymwybodol o gynnydd mewn atgyfeiriadau ar gyfer cymorth llythrennedd arbenigol yn y lleoliad. Er mwyn lliniaru hyn, mabwysiadwyd dulliau newydd o fynd i'r afael â rhai o'r anghenion iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn yr ysgol. Archwiliais effaith yr ymyriadau hyn o ran gwelliant academaidd a hunaneffeithiolrwydd mewn perthynas â sillafu.

### *Adolygiad o Lenyddiaeth*

#### *Ymyriadau*

Mae ymyrraeth effeithiol yn faes y mae angen ymchwilio ymhellach iddo. Fodd bynnag, mae Murphy (2015) yn nodi, wrth wneud hynny, fod y tair agwedd allweddol ganlynol yn hanfodol: amser, arian ac adnoddau dynol. Yn yr hinsawdd bresennol, cydnabyddir bod yr adnoddau hyn yn brin, sy'n ei gwneud yn hanfodol bod yr ymyriadau a wneir yn effeithiol. Er mwyn pennu beth sydd angen ei addysgu, rhaid cynnal asesiadau sylfaenol cyn unrhyw ymyrraeth (Ausubel, 1968; Van de Pol et al., 2014). Mae gwerthuso plant a hunanfyfyrdodau athrawon yn ffyrdd eraill o sefydlu effaith, ond nid ydynt yn ddibynadwy. Mae angen i ymyriadau fod wedi'u cynllunio a'u paratoi'n ofalus a sicrhau eu bod yn seiliedig ar ymchwil gan na fydd ymyrraeth a roddir ar waith mewn ffordd ad-hoc yn arwain at y newid a ddymunir (Meiklejohn et al., 2021).

#### *Addysgu Sillafu*

Wrth ddarllen, rhaid i'r ymennydd wneud cysylltiadau rhwng symbolau ysgrifenedig, eu synau a'u hystyr, tra bod sillafu'n gofyn i'r ymennydd

gysylltu synau ac ystyr â symbolau ysgrifenedig (Purcell, Shea a Rapp, 2014), gan ddefnyddio gwahanol rannau o'r ymennydd.

Mae cyfarwyddyd cynnar mewn ymwybyddiaeth ffonolegol a ffoneg—sy'n gysylltiedig â synau'r wyddor—yn helpu plant i greu mapiau meddyliol sy'n arwain at newidiadau gwybyddol. (Richards et al., 2010). Mae hyn yn gosod sylfaen gref ar gyfer eu datblygiad yn y dyfodol o ran sillafu, darllen ac ysgrifennu. Fodd bynnag, mae plant sydd â Dyslecsia neu dueddiadau dyslecsig yn cael anhawster sylweddol i ddeall y cysylltiad rhwng synau a llythrennau. Mae hyn oherwydd anhawster niwrobiolegol sylfaenol gyda phrosesu ffonolegol (Nora et al., 2021). Oherwydd anawsterau yn gwahaniaethu rhwng synau a llythrennau yn hemisffer chwith yr ymennydd, bydd ffonoleg yn heriol i blant â Dyslecsia ac mae astudiaethau'n awgrymu bod tua 7% o'r boblogaeth yn ddyslecsig (Peterson a Pennington, 2012). Mewn ymyrraeth sillafu lwyddiannus, ni all tiwtora ddiybennu ar ffoneg yn unig. Gall delweddu, lle mae plant yn darlunio'r llythrennau o fewn gair cyn ei ysgrifennu, fod yn fuddiol (Harris et al., 2017). Gall plant â dyslecsia elwa ar y strategaeth hon (Itaguchi et al., 2017). At hynny, gallai technegau addysgu amlsynnwyr fod yn ddefnyddiol. Mae defnyddio'r synhwyrau yn harneisio ystod lawn galluoedd gwybyddol dysgwyr, gan gryfhau cof a'r gallu i alw i gof (Newman, 2019).

O ran patrymau ffonemau i graffemau (sillafu) a phatrymau graffemau i ffonemau (darllen), mae'r Saesneg yn afreolaidd iawn a gall achosi her sylweddol (Ardanouy et al., 2023). Mae deall sut mae geiriau'n cael eu ffurfio'n hanfodol:

'...morphology is important for spelling and decoding because the English writing system is in part morphologically based' (Nagy, Carlisle a Goodwin, 2014, t. 3).

Mae addysgu orgraff, ffonoleg a morffoleg wrth ddysgu sut i sillafu yn cael ei chefnogi ymhellach gan y *Triple Word Form Theory* (TWFT) (Garcia, Abad a Berringer, 2010), sy'n nodi'r rhain fel elfennau hanfodol o gyfarwyddyd sillafu y mae plant yn eu cyrchu o oedran cynnar (Daffern, Mackenzie a Hemmings, 2015).

### ***Canfyddiadau plant o'u hunain fel sillafwyr llwyddiannus***

Roedd gwerthuso canfyddiadau plant o'u hunain yn un o nodau allweddol y gwaith ymchwil hwn. Mae plant ag anhawster llythrennedd

megis Dyslecsia yn fwy tebygol o ddatblygu barn negyddol amdanynt eu hunain fel dysgwyr (Gibby-Leversuch, Hartwell a Wright, 2021). Efallai y bydd lefel ymdrech plant yn eu gwaith yn cael ei heffeithio os oes ganddynt hunan-ganfyddiad gwael o'u hunain fel dysgwyr. Mae hunan-amheuaeth yn eu gallu, a chred nad ydynt yn ddeallus, yn troi'n broffwydoliaeth hunangyflawnol yn sgil diffyg ymdrech ac felly'n elfen o fethiant, sy'n gallu effeithio'n andwyol ar eu cymhelliad (Busch a Watson, 2019).

### *Dulliau*

Gan mai nod y gwaith ymchwil hwn oedd cael dealltwriaeth o brofiadau bywyd pobl a sut y maent yn deall pethau (Denscombe, 2021, t. 43), penderfynais ymgymryd â'r gwaith ymchwil hwn o safbwynt lluniadaethol. Roeddwn yn awyddus i ddeall pam nad oedd ymyriadau sillafu blaenorol wedi llwyddo.

Dewisais ddull astudiaeth achos ar gyfer y gwaith ymchwil hwn gan ei fod yn darparu cyfle i astudio un agwedd ar broblem yn fwy trylwyr o fewn ystod amser cyfyngedig (Bell a Waters, t. 28, 2018). Galluogodd y dull hwn i mi gynllunio a chyflwyno ymyraeth sillafu bwrpasol, gyda dulliau addysgegol seiliedig ar dystiolaeth ymchwil, i nifer fach o ddisgyblion o fewn cyfnod byr o wyth wythnos. Mae Hopkins (2014) yn nodi bod astudiaethau achos yn ddull hawdd o werthuso effeithiolrwydd dulliau addysgu ac yn rhoi darlun clir o ymatebion disgyblion. Gall astudiaethau achos archwiliadol ragflaenu astudiaethau mwy sydd ar ddod, ond gallant hefyd ganiatáu i amcanion realistig gael eu gosod ac i bwnc gael ei astudio'n rhesymol fanwl, yn enwedig pan fydd cyfyngiadau amser (Biggum, 2017).

### *Moeseg*

Cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg y brifysgol cyn dechrau'r ymchwil. Gwahoddwyd rhieni'r plant a oedd yn rhan o'r astudiaeth i gyflwyniad byr ac yno trafodais ddiben a nodau'r gwaith ymchwil, sut y byddai eu plant yn cymryd rhan o bosibl a sut y byddai'r data'n cael ei storio a'i ddefnyddio. Rhoddwyd taflen wybodaeth iddynt hefyd. Dywedais yn glir bod cymryd rhan yn y prosiect yn wirfoddol ac

y gallent dynnu eu plant yn ôl ar unrhyw adeg. Yn dilyn canllawiau Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, cytunodd y plant i gymryd rhan drwy lofnodi ffurflen gydsyniad addas i blant, a rhoddwyd ffugenwau i bob plentyn gydol cyfnod yr ymchwil.

Un risg a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith ymchwil hwn oedd y gallai'r ymyrraeth sillafu effeithio'n negyddol ar hunan-barch y plant a'u canfyddiadau ohonynt eu hunain, ac esboniwyd hyn i rieni. Pe bai effaith negyddol yn cael ei arsylwi, yna byddai ymyriadau lles yr ysgol yn cael eu cynnig i gefnogi'r plant a'u teuluoedd. Rhannwyd gwefannau a oedd yn cynnig help a chyingor ychwanegol ar gyfer anawsterau sillafu a llythrennedd gyda rhieni.

### ***Gweithdrefn samplu a disgrifiad***

Roedd y deuddeg plentyn a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn dod o'r un dosbarth Blwyddyn 4. Roedd ganddynt sgoriau safonedig tebyg (rhwng 80 a 90) o asesiadau sillafu crynodol a gymerwyd ar yr un pryd. Roedd pob plentyn wedi cael ei addysgu i ddarllen a sillafu drwy ddull seiliedig ar ffoneg. Buont yn cymryd rhan mewn 16 sesiwn ymyrraeth dros gyfnod o wyth wythnos. Cwblhaodd pob disgybl holiaduron cyn ac ar ôl yr ymyrraeth a gwahoddwyd y deuddeg i gymryd rhan yn un o gyfweiliadau'r grŵp ffocws. Defnyddiodd yr ymchwil ddull dulliau cymysg, gan driongli data ansoddol a meintiol i fynd i'r afael â'r nodau ymchwil canlynol:

1. Archwilio sut mae ymyrraeth sillafu'n effeithio ar allu disgybl i sillafu'n gywir.
2. Gwerthuso canfyddiad y disgyblion o'u gallu eu hunain (cyn ac ar ôl yr ymyrraeth).
3. Nodi technegau a strategaethau a oedd yn gweithio'n dda a rhai nad oeddent yn gweithio cystal o fewn yr ymyrraeth o safbwynt y disgyblion.

### ***Cynhyrchu a Dadansoddi Data***

Cyn yr ymyrraeth, cwblhaodd y cyfranogwyr holiaduron Graddfa Likert i ganfod a oeddent yn ystyried eu hunain yn sillafwyr

llwyddiannus. Defnyddiodd Graddfa Likert wynebaw fel cynrychiolaeth ddarluniadol o'r raddfa, gan dybio y byddai hynny'n well i blant ifanc (Coe et al., 2021). Casglwyd data meintiol o asesiad crynodol ac o brawf sillafu sylfaenol o 13 o eiriau allweddol, a ddewiswyd o waith y plant eu hunain. Ailadroddwyd holiadur Graddfa Likert ac asesiadau meintiol ar ôl yr ymyrraeth, a chymharwyd y canlyniadau.

Rhoddodd dau gyfweiliad grŵp ffocws gyfle i gyfranogwyr rannu eu meddyliau a'u barn ymhlith eu cyfoedion, a helpodd hynny i wneud iddynt deimlo'n fwy cyfforddus (Morrison, 2013). Yn fy rôl ddeuol fel yr athro dosbarth a'r ymchwilydd, roedd angen i mi aros yn wrthrychol a dewisais gynrychiolydd dibynadwy i gynnal y cyfweiliadau. Fe wnes i godio ymatebion y plant yn drylwyr gan ddefnyddio dadansoddiad thematig Braun a Clarke (2022). Defnyddiais y wybodaeth hon i baratoi cwestiynau a oedd yn targedu ymatebion holiadur cyfranogwyr unigol drwy drafodaeth led-drefnus.

### *Canlyniadau a Thrafodaeth*

#### *Data Meintiol*

Prif nod y gwaith ymchwil hwn oedd archwilio sut y gwnaeth ymyrraeth sillafu bwrpasol effeithio ar allu disgybl i sillafu'n gywir. Roedd canfyddiadau'r ymchwil yn gadarnhaol, gydag un ar ddeg o'r deuddeg cyfranogwr yn gwneud cynnydd o ran sgoriau asesu safonedig (SAS) ac oedrannau sillafu. Mae'r tabl isod yn dangos sgoriau safonedig disgyblion cyn ac ar ôl yr ymyrraeth.

Y cynnydd cymedrig mewn SAS oedd 5.5, a'r cymedr ar gyfer plant nad oeddent yn cymryd rhan yn yr ymyrraeth oedd 1.75. Roedd y cynnydd mewn SAS yn sylweddol uwch ymhlith plant a gafodd yr ymyrraeth.

Pedwar mis oedd y gwahaniaeth amser rhwng y profion cyn ac ar ôl yr ymyrraeth. Cyflawnodd naw o'r 13 cyfranogwr gynnydd yn eu hoedrannau sillafu o dros flwyddyn, sy'n gynydd dymunol mewn cyfnod cymharol fyr. Roedd y cynnydd cymedrig o ran oedrannau sillafu ymhlith y cyfranogwyr yn 14.25 mis. O'i gyharu, y cynnydd cymedrig o ran oedrannau sillafu ar gyfer y plant a oedd yn weddill oedd 8.2 mis.

**Tabl 1: Sgoriau safonedig disgyblion cyn ac ar ôl yr ymyrraeth**

	<i>Norah</i>	<i>Laura</i>	<i>Carl</i>	<i>Ryan</i>	<i>Tommy</i>	<i>Rosie</i>	<i>Ioan</i>	<i>Niall</i>	<i>Greta</i>	<i>Gethin</i>	<i>Molly</i>	<i>Campbell</i>
SAS y Gwanwyn	76	78	82	89	84	86	79	84	85	81	88	84
SAS yr Haf	83	81	87	102	87	97	80	89	91	83	99	83

**Tabl 2: Cynnydd mewn oeddrannau sillafu**

	<i>Oedran Sillafu cyn yr Ymyrraeth</i>	<i>Oedran Sillafu ar ôl yr Ymyrraeth</i>	<i>Gwahaniaeth</i>
Norah	6 blynedd 0 mis	7 mlynedd 6 mis	+ 18 mis
Laura	6 blynedd 0 mis	7 mlynedd 2 fis	+ 14 mis
Carl	6 blynedd 5 mis	7 mlynedd 9 mis	+ 16 mis
Ryan	7 mlynedd 6 mis	9 mlynedd 1 mis	+ 19 mis
Tommy	7 mlynedd 6 mis	8 mlynedd 5 mis	+11 mis
Rosie	7 mlynedd 8 mis	9 mlynedd 0 mis	+ 16 mis
Ioan	6 blynedd 6 mis	7 mlynedd 7 mis	+ 13 mis
Niall	7 mlynedd 8 mis	8 mlynedd 6 mis	+ 10 mis
Greta	7 mlynedd 0 mis	8 mlynedd 3 mis	+ 15 mis
Gethin	6 blynedd 1 mis	7 mlynedd 7 mis	+ 18 mis
Molly	7 mlynedd 10 mis	9 mlynedd 3 mis	+ 17 mis
Campbell	7 mlynedd 5 mis	7 mlynedd 9 mis	+ 4 mis

Cyflawnwyd gwelliant o dros flwyddyn gan naw o'r deuddeg cyfranogwr, gyda chynnydd cymedrig o 14.25 mis. Byddai'n amhosibl cyfrifo gwerth ychwanegol heb asesiadau cychwynnol. Roedd pennu beth yr oedd y plant yn ei wybod eisoes (Ausubel, 1968) yn hanfodol wrth gasglu'r data meintiol a phennu ble roedd y bylchau yng ngwybodaeth y plant.

Dangosodd asesiadau ar wybodaeth am yr wyddor cyn yr ymyrraeth fod pob plentyn yn gallu adrodd yr wyddor yn gywir cyn belled â 'k', ond bod rhan ganol yr wyddor, 'l m n o p', yn anodd i bump o'r deuddeg plentyn, ac ni allai tri adrodd y 4 llythyren olaf yn gywir. Ymgorfforwyd adrodd yr wyddor yn y sesiynau ymyrraeth ac, ar ddiwedd yr ymyrraeth, roedd pob cyfranogwr ond un yn gallu adrodd yr wyddor gyfan yn gywir. Mae hyn yn cefnogi Vacca et al. (2006) sy'n datgan mai gwybod llythrennau'r wyddor yw'r man cychwyn ar gyfer sillafu. Mae Richards et al. (2010) hefyd yn cefnogi dysgu synau llythrennau yn yr wyddor, gan fynd cyn belled â dweud mai dyma'r sylfaen ar gyfer sillafu, darllen ac ysgrifennu. Fodd bynnag, gan fod cymaint o elfennau eraill i'r sesiynau, mae'n amhosibl canfod effaith gwybodaeth am yr wyddor yn unig.

### ***Technegau Llwyddiannus***

Defnyddiwyd amrywiaeth o dechnegau amlsynnwr yn ystod sesiynau, megis creu llythrennau allan o rawnfwyd a defnyddio sialc, gliter, paent, bawd, sbwng, tywod a halen. Y defnyddiau a ffafriwyd oedd bawd ('roedd yn fflwfflyd. Roedd yn deimlad braf.") a grawnfwyd. Datgelodd trafodaethau cyfweliad grŵp bach fod grawnfwyd yn cael ei ffafrio oherwydd ei fod yn fwydadwy ac nid oherwydd ei ansawdd.

Drwy ysgrifennu'r un gair dro ar ôl tro o fewn cyfnod penodol o amser, defnyddiwyd ysgrifennu cyflym i helpu i drosglwyddo sillafiadau o'r cof gweithio i'r cof tymor hir, gan adeiladu llwybrau niwral. Defnyddir y dechneg hon ar ddiwedd pob sesiwn Cued Spelling (Topping, 1995) ac mae'n ymddangos yn llyfr Pie Corbett a Julia Strong, *Talk for Writing across the Curriculum* (2011). Cafodd y dull hwn ymateb cymysg yn ystod y cyfweliadau, ond cafodd dderbyniad cadarnhaol yn ystod y sesiynau. Roedd modd i'r myfyrwyr ddelweddu'r geiriau gan ddefnyddio'r dull Oedi Amser Cyson, ac roedd pob sesiwn yn dechrau gydag adolygiad o'r geiriau ffocws blaenorol. Mae adolygu




mynych yn helpu i roi'r hyn a ddysgwyd yn y cof tymor hir ac yn datblygu llwybrau niwral (Widagdo, Wong ac Anggono, 2022).

Cafodd y defnydd o gofrifau (system mnemonig) groeso brwd gan y plant. Ymatebodd deg o'r deuddeg cyfranogwr yn gadarnhaol i ddefnyddio'r dechneg hon. Gan fod cofrifau yn gweithio orau pan fydd hyn yn wir, y cyfranogwyr a ddyfeisiodd y cofrifau a ddefnyddiwyd (France et al., 1993). Ymatebodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn ffafriol i astudio morffoleg geiriau, sy'n ddefnyddiol wrth oresgyn yr anghysonderau niferus a geir yn Saesneg (Ardanouy et al., 2023).


Cwblhawyd holiaduron Graddfa Likert cyn ac ar ôl yr ymyrraeth. Cyn yr ymyrraeth, roedd naw cyfranogwr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn ei chael hi'n anodd sillafu. Yn dilyn yr ymyrraeth, gostyngodd y nifer hwn i bedwar. At hynny, roedd tri o'r plant yn anghytuno'n gryf.

Ar ôl y sesiynau, roedd y chwe chyfranogwr a oedd wedi anghytuno â'r datganiad cyn yr ymyrraeth yn cytuno ar ôl yr ymyrraeth. Mae'r ffaith bod y deuddeg ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf yn awgrymu eu bod yn teimlo'n fwy hyderus am eu galluedd fel sillafwyr hyfedr. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd, fel y nodwyd gan Busch a

**Ffigur 1: Canfyddiadau plant o'u gallu sillafu eu hunain**



**Ffigur 2: Canfyddiadau plant o'u hunain fel sillafwyr llwyddiannus yn dilyn ymyrraeth**



Watson (2019), mae cyfranogwyr yn llai tebygol o fod â hunan-barch isel ac o gyflawni proffwydoliaeth hunangyflawnol methiant a hunan-amheuaeth.

Ni chafodd yr ymyrraeth effaith andwyol ar unrhyw blentyn o ran hunanhyder a hunanganfyddiad ac roedd gan y cyfranogwyr sylwadau cadarnhaol i'w gwneud am y profiad. Esboniodd un cyfranogwr ei fod wrth ei fodd â'r sesiynau oherwydd ein bod wedi mynd ati mewn ffordd mor hwyliog. Cynlluniwyd pob sesiwn mewn ymateb i'r sesiwn flaenorol fel nad oedd y sesiynau byth yn ad hoc, sy'n rhywbeth mae Meiklejohn et al. (2021) yn haeru sy'n hanfodol i lwyddiant ymyrraeth.

### *Casgliad*

Dangosodd data a gasglwyd o'r astudiaeth fod gallu sillafu disgyblion wedi gwella'n sylweddol yn dilyn yr ymyrraeth. Cynyddodd SAS y cyfranogwyr gan gymedr o 5.5, a'u hoedran sillafu gan gymedr o 14.25 mis. Mae'r llwyddiant yn fwy amlwg o'u cymharu â gweddill y garfan; gwelwyd eu sgoriau hwy yn gwella gan gymedr o 1.75 ac 8.2 mis yn y

drefn honno. O ganlyniad i'r astudiaeth hon, mae'r ffordd y caiff sillafu ei addysgu ledled yr ysgol wedi newid, a nodir y dulliau cyflwyno mae cyfranogwyr yn eu ffafrio. Ar ôl yr ymyrraeth, roedd yr holl gyfranogwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn sillafwyr hyfedr, ac roedd llai ohonynt yn ei chael hi'n anodd sillafu. O ystyried cwmpas cyfyngedig yr astudiaeth hon, byddai ymchwil ychwanegol ar y technegau a ddefnyddiwyd yn fuddiol.

### *Cydnabyddiaeth*

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil hwn fel rhan o'm hastudiaethau ar yr MA Genedlaethol mewn Addysg (Cymru). Hoffwn ddiolch i Dr. Rhianon Packer, fy nhwitor, am ei chefnogaeth barhaus yn ystod fy astudiaethau. Hoffwn ddiolch hefyd i Dr. Cheryl Ellis am ei harweiniad a'i chefnogaeth yn ystod y prosiect ymchwil hwn. Hoffwn ddiolch hefyd i'm teulu am eu cariad a'u cefnogaeth barhaus.

### *Cyfeiriadau*

- Ardanouy, E., Zesiger, P. a Delage, H. (2023) Intensive and explicit derivational morphology training in school-aged children: an effective way to improve morphological awareness, spelling and reading? Reading & writing [Preprint]. <https://doi.org/10.1007/s11145-023-10454-y>
- Ausubel, D. P. (1968) *Educational psychology: A cognitive view*. New York, NY: Holt, Rinehart a Winston
- Bell, J. a Waters, S. (2018) *Doing Your Research Project*. Maidenhead: McGraw-Hill Education
- Braun, V. a Clarke, V. (2022) *Thematic analysis: a practical guide*, argraffiad cyntaf. Thousand Oaks: SAGE Publications Ltd
- Busch, B. a Watson, C.E. (2019) *The science of learning: 77 studies that every teacher needs to know*. Abingdon, Oxon: Routledge
- Coe, R., Waring, M., Hedges, L.V., ac Ashley, L. D. (gol.) (2021) *Research methods & methodologies in education*, 3ydd argraffiad. Los Angeles: SAGE
- Corbett, P., Strong, J. (2011) *Talk for Writing Across the Curriculum*. London: Open University Press
- Daffern, T., Mackenzie, N. M. a Hemmings, B. (2015) 'The development of a spelling assessment tool informed by Triple Word Form Theory', *The Australian Journal of Language and Literacy*, 38(2), 72–82. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3316/aeipt.208843>

- Denscombe, M. (2021) *The Good Research Guide: Research methods for small-scale social research projects*. Carol Stream: McGraw-Hill Education
- France, L., Topping, K. a Revell, K. (1993) 'Parent-tutored Cued Spelling', *Support for Learning*, 8, 11–15
- Garcia, N., Abbott, R. a Berninger, V. (2010) 'Predicting poor, average, and superior spellers in grades 1 to 6 from phonological, orthographic, and morphological, spelling, or reading composites', *Written Language & Literacy*, 13(1), 61–98
- Gibby-Leversuch, R., Hartwell, B. K. a Wright, S. (2021) 'Dyslexia, Literacy Difficulties and the Self-Perceptions of Children and Young People: A Systematic Review', *Current Psychology*, 40(11), 5595–612. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1007/s12144-019-00444-1>
- Harris, K. R., Graham, S., Aitken, A. A., Barkel, A., Houston, J., a Ray, A. (2017) 'Teaching Spelling, Writing, and Reading for Writing: Powerful Evidence-Based Practices', *TEACHING Exceptional Children*, 49(4), 262–72. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/0040059917697250>
- Hopkins, D. (2014) *A Teacher's Guide to Classroom Research*. Milton Keynes: McGraw-Hill Education, t. 147
- Itaguchi Y., Yamada C., Yoshihara M., Fukuzawa K. (2017) 'Writing in the air: A visualization tool for written languages', *PLoS ONE* 12(6): e0178735. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0178735>
- Llywodraeth Cymru (2022) Cwestiynau Cyffredin. Tudalennau 10 a 23. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/9/1/1695036377/rhaglen-trawsnewid-y-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-cwestiynau-cyffredin.pdf> (Cyrchwyd ar: 14 Awst 2023)
- Llywodraeth Cymru, Metadata (2024) Adroddiadau o anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl sector a math o angen. Ar gael yn: [https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/reports\\_of\\_special\\_educational\\_needs\\_by\\_sector\\_type\\_of\\_need](https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/reports_of_special_educational_needs_by_sector_type_of_need) (Cyrchwyd ar: 11 Hydref 2024)
- Meiklejohn, C., Westaway, L., Westaway, A. F. H., Long, K. A. (2021) 'A review of South African primary school literacy interventions from 2005 to 2020', *South African Journal of Childhood Education (SAJCE)*, 11(1), tt. e1–e11. Ar gael yn: <https://doi.org/10.4102/sajce.v11i1.919>
- Morrison, K. (2013). 'Interviewing children in uncomfortable settings: 10 lessons for effective practice', *Educational Studies*, 39(3), 320–37. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/03055698.2012.760443>
- Murphy, K. P. (2015) 'Marking the way: School-based interventions that “work”', *Contemporary Educational Psychology*, 40, 1–4. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.cedpsych.2014.10.003>
- Nagy, W. E., Carlisle, J. F., a Goodwin, A. P. (2014) 'Morphological Knowledge and Literacy Acquisition', *Journal of Learning Disabilities*, 47(1), 3–12. Ar gael yn: <https://doi-org.ezproxy.cardiffmet.ac.uk/10.1177/0022219413509967>

- Newman, I. (2019) 'When saying "go read it again" won't work: Multisensory ideas for more inclusive teaching & learning', *Nurse Education in Practice*, 34, 12–16. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.nepr.2018.10.007>
- Nora, A., Renvall, H., Ronimus, M., Kere, J., Lyytinen, H., Salmelin, R. (2021) 'Children at risk for dyslexia show deficient left-hemispheric memory representations for new spoken word forms', *NeuroImage*, 229, 117739–117739. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.neuroimage.2021.117739>
- Peterson, R. L. a Pennington, B. F. (2012) Developmental dyslexia, *The Lancet* (British edn), 379(9830), 1997–2007. Ar gael yn: [https://doi.org/10.1016/S0140-6736\(12\)60198-6](https://doi.org/10.1016/S0140-6736(12)60198-6)
- Purcell, J. J., Shea, J. a Rapp, B. (2014) 'Beyond the visual word form area: The orthography-semantics interface in spelling and reading', *Cognitive neuropsychology*, 31(5–6), 482–510. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/02643294.2014.909399>
- Richards, T. L., Aylward, E. H., Bernigner, V. W., Field, K. M., Grimme, A. C., Richards, A. L., Nagy, W. (2006) 'Individual fMRI activation in orthographic mapping and morpheme mapping after orthographic or morphological spelling treatment in child dyslexics', *Journal of Neurolinguistics*, 19(1), tt. 56–86. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.jneuroling.2005.07.003>
- SNAP CYMRU (2022) *Beth yw ADY?*, *Snap Cymru*. Ar gael yn: <https://www.snapcymru.org/chwilio-am-gyngor/beth-yw-anghenion-dysgu-ychwanegol-ady/?lang=cy> (Cyrchwyd ar 10 Hydref 2024)
- Topping, K. J. (1995) 'Cued Spelling: A Powerful Technique for Parent and Peer Tutoring', *The Reading Teacher*, 48(5), 374–83
- Van de Pol, J. et al. (2014) 'Teacher Scaffolding in Small-Group Work: An Intervention Study', *The Journal of the learning sciences*, 23(4), 600–650. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/10508406.2013.805300>
- Widagdo, J., Wong, J. J-L. ac Anggono, V. (2022) 'The m6A-epitranscriptome in brain plasticity, learning and memory', *Seminars in Cell & Developmental Biology*, 125, 110–121. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.semcdb.2021.05.023>